

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4

Cylchlythyr

1

Lleddfu'r Ilif

Coridor yr M4, Magwyr i Gas-bach – y problem

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod tagfeydd ac amserau siwrneiau annibynadwy wedi bod yn ffaith bywyd ar yr M4 o amgylch Casnewydd ers blynyddoedd lawer. Mae problemau cysylltiedig yn effeithio ar ffyrdd eraill a thrigolion o fewn ardal y coridor hefyd. Felly sefydlwyd Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 i ddatrys problemau'n gysylltiedig â theithio yn cael eu hachosi gan ddefnydd cynyddol o'r M4, a hen ddyluniad yr M4 yma.

Beth sydd wedi'i wneud hyd yma

Cychwynnwyd yn 2008 ar fesurau ymarferol i wneud teithio'n fwy diogel ac yn haws ar yr M4 rhwng cyffyrdd 23a a 29. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gosod rhwystrau canolog concrit yn lle rhai dur mewn manau, cyflwyno Systemau Amrywio Cyflymder a defnyddio swyddogion traffig. Er mwyn lleddfu

tagfeydd traffig, gwnaethpwyd gwelliannau i'r gylchfan yng Nghyffordd 24 yng Ngholdra, ac mae cynlluniau i greu cyswllt sy'n mynd drwy waith dur Llanwern rhwng Cyffordd 23a a Ffordd Ddosbarthu De Casnewydd.

Bu Llywodraeth Cymru'n siarad â phobl ar ddechrau'r flwyddyn – sefydliadau yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd, busnesau, y sector gwirfoddol, yn ogystal â phobl gyffredin a thrigolion yr ardal – ac mae'r adborth wedi sefydlu cytundeb bras ynghylch beth yw'r problemau sy'n gysylltiedig â theithio ar Goridor yr M4, rhwng Magwyr a Chas-bach.


Pwy sy'n mynd i ddatrys hyn?

Mae Llywodraeth Cymru'n deall bod problemau'n gysylltiedig â theithio yn gymhleth ac yn effeithio ar ystod eang o bobl, felly fel cam nesaf mae Llywodraeth Cymru'n creu Fforwm Rhanddeiliaid. Grŵp yw hwn i ddod â chynrychiolwyr at ei gilydd o Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ymgynghoreion

Gellir lawrlwytho rhagor o gopi au o'r daflen hon o www.m4cem.com
Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras hefyd o Rob Booth, Llywodraeth Cymru, Ffon 029 2082 6458

ARUP

Coridor yr M4 Magwyr i Gas-bach



statudol fel Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, sefydliadau anllywodraethol a sefydliadau gwirfoddol, cyrff trafndiaeth a grwpiau busnes sy'n cynrychioli'r ystod eang o bobl sydd â diddordee mewn problemau'n gysylltiedig â theithio yn yr ardal hon, a phobl yr effeithir arnynt gan y problemau hynny. Bydd y Fforwm yn helpu Llywodraeth Cymru i archwilio atebion posibl.

Atebion posibl

Ar ôl gwrandio ar yr adborth gan y cyhoedd a chyrrff eraill, mae Llywodraeth Cymru'n arfarnu ystod eang o atebion posibl. Mae'r rhain yn rhannu yn bedwar categori:

- **Seilwaith priffyrdd** Mae hyn yn ymwneud ag adeiladu a gwella'r rhwydweithiau priffyrdd fel eu bod yn gweithio'n fwy effeithlon i deithwyr, ac yn achosi llai o broblemau i bobl sy'n byw gerllaw.
- **Rheoli'r rhwydwaith ffyrdd** Mae hyn yn ymwneud â rheoli ein ffyrdd presennol yn well, ac mae'n cynnwys syniadau am sut i leihau tagfeydd ar adegau prysur, traffig sy'n gysylltiedig â digwyddiadau poblogaidd a gwella'r ymateb i ddamweiniau neu dywydd gwael fel bod llai o darfu yn digwydd i bawb.
- **Dulliau teithio amgen** Mae hyn yn golygu cael mwy o bobl i deithio a chyrraedd gwasanaethau, cartrefi, manau gweithio a chyfleusterau hamdden heb yrru car.
- **Dewisiadau Cynaliadwy Doethach a Hybu Lles** Mae hyn yn golygu meddwl am ffyrdd o

drefnu ein bywydau fel y gallwn atal mwy o broblemau'n gysylltiedig â theithio. Gellid cyflawni hyn drwy:

- polisi'r llywodraeth (cynllunio strategol gwell o ddefnydd tir, cysylltu cynlluniau teithio a mynediad â'r agendâu iechyd, yr economi a'r amgylchedd);
- gweithredu gan sefydliadau ac unigolion (oriau gweithio hyblyg, lleihau teithio drwy weithio o gartref, rhannu ceir).

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r Fforwm Rhanddeiliaid yn mynd i archwilio ac o bosibl ehangu'r ystod o atebion posibl. Bydd yn ystyried buddion neu anfanteision posibl pob un o'r atebion posibl. Bydd tîm technegol Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres o Opsiynau wedyn ar gyfer datrys materion yn gysylltiedig â theithio o fewn Coridor yr M4, eto gan weithio â'r Fforwm Rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod yr opsiynau amgen gorau posibl yn cael eu harchwilio'n drylwyr. Mae pob Opsiwn yn debygol o gynnwys nifer o fathau gwahanol o fesurau o'r pedwar categori a ddisgrifiwyd uchod.

Eich rhan chi

ABydd ail gylchlythyr yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref er mwyn rhoi gwybodaeth i chi am gynnydd. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, cewch eich gwahodd i roi eich barn am yr Opsiynau. Bydd eich barnau yn helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniad am ba Opsiwn i'w ddilyn.

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.cymru.gov.uk/trafnidiaeth neu i wefan bwrpasol newydd www.m4cem.com